



Arolwg y Cyfrifiad Materion Bwyd

Rhestr gyflawn o gwestiynau ac atebion amlddewis

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y rhestr gyflawn o gwestiynau ac atebion amlddewis ar gyfer arolwg y Cyfrifiad Materion Bwyd. Gallwch ddefnyddio'r dolenni isod i symud drwy'r ddogfen.

Defnyddiwch y ddogfen hon os hoffech adolygu'r holl gwestiynau neu eu rhannu gyda chydweithwyr cyn cwblhau'r arolwg ar JotForm.

[Adran un: Chi a'ch sefydliad](#)

- [1. Chi a'ch sefydliad](#)
- [2. Math o sefydliad: Dewiswch yr opsiwn/opsiynau sy'n disgrifio eich sefydliad orau.](#)
- [3. Daearyddiaeth: Ar ba wlad/rhanbarth y mae eich gwaith yn canolbwyntio?](#)

[Adran dau: Y gwaith yr ydych yn ei wneud](#)

- [4. Pa rai o'r materion bwyd a ffermio canlynol y mae eich sefydliad yn mynd i'r afael â nhw? \(Dewiswch bob un sy'n berthnasol gan ganolbwyntio ar y meysydd yr ydych yn neilltuo o leiaf 5% o oriau staff neu wirfoddolwyr iddynt\)](#)
- [5. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich dull o greu newid? Dim ond y meysydd hynny yr ydych yn neilltuo cryn dipyn o'ch amser iddynt \(5% neu fwy o'ch oriau staff neu wirfoddolwyr\) y dylech eu dewis.](#)
- [6. Ble mae gwaith eich sefydliad ar y sbectrwm rhwng mynd i'r afael ag achosion sylfaenol yr materion yr ydych yn gweithio arnynt a lleddfu'r symptomau? \(Os ydych yn defnyddio dull cymysg, dewiswch bob un sy'n berthnasol\)](#)
- [7. A yw eich gwaith yn canolbwyntio ar/gwasanaethu unrhyw rai o'r grwpiau canlynol? Dewiswch bob opsiwn perthnasol.](#)

[Adran tri: Pobl ac Adnoddau](#)

- [8. Dywedwch wrthym am eich incwm, eich staff a'ch gwirfoddolwyr isod:](#)
- [9. O ble y daeth yr incwm ar gyfer eich gwaith ar faterion bwyd a ffermio y llynedd? Ticiwch bob un sy'n berthnasol ac ychwanegwch y swm lle y bo'n berthnasol.](#)
- [10. O fewn prif faes gwaith eich sefydliad ar fwyd a ffermio, pa fater neu weithgaredd unigol fyddai'n elwa fwyaf o gael arian ychwanegol? \(Byddwch mor benodol â phosibl,](#)

e.e., "Ehangu rhaglenni tyfu bwyd lleol" neu "Eirioli ar gyfer polisïau ffermio cynaliadwy.")

11. Hoffem ddeall sut y gall cyllidwyr, cynghreiriau, ac ymchwilwyr gefnogi a chryfhau'r sector bwyd a ffermio yn well. Rhannwch eich barn ar y mathau pwysicaf o gymorth, heriau penodol, neu gyfleoedd y dylent roi sylw iddynt yn y gofod isod:

Adran Pedwar: Eich cysylltiadau

12. Gyda pha sefydliadau eraill y mae eich sefydliad yn gweithio ar faterion bwyd a ffermio ar hyn o bryd? Rhestrwch hyd at 10 sefydliad y mae eich sefydliad yn gweithio gyda nhw ar hyn o bryd ar faterion bwyd a ffermio. Ar gyfer pob sefydliad, dewiswch yr opsiwn sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o natur y berthynas orau.

13. Pa rwydweithiau, cynghreiriau, neu fudiadau y mae eich sefydliad yn rhan ohonynt? Rydym wedi rhestru rhai opsiynau isod, ond mae croeso i chi ychwanegu unrhyw rai eraill sy'n berthnasol.

14. Pa berthnasoedd yr ydych yn awyddus i'w creu gyda sefydliadau eraill i gryfhau neu ehangu effaith eich gwaith ym maes bwyd a ffermio?

15. Yn eich barn chi, beth yw'r prif ffactorau sy'n rhwystro ac yn galluogi cydweithio effeithiol o fewn y sector bwyd a ffermio?

Adran pump: Llwyddiannau ysbrydoledig a'r dyfodol

16. Pa rai o'r rhain yw'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r sector bwyd a ffermio yn y DU yn y 3-5 mlynedd nesaf?

17. Enwebiad ar gyfer astudiaeth achos: Rydym yn awyddus i roi sylw i straeon llwyddiant ysbrydoledig o'r sector bwyd a ffermio yn y DU fel rhan o adroddiad y Cyfrifiad Materion Bwyd.

Cyflwyniad

Helô, a chroeso i Arolwg y Cyfrifiad Materion Bwyd!

Beth yw Arolwg y Cyfrifiad Materion Bwyd?

Prosiect i ddeall y sefydliadau a'r cymunedau sy'n gweithio ac yn gweithredu ar faterion allweddol sy'n ymwneud â bwyd ledled y DU yw'r Cyfrifiad Materion Bwyd. Rydyn ni eisiau gwybod ar beth rydych chi'n gweithio, pa faterion yw'r rhai pwysicaf yn eich barn chi, sut rydych yn cael eich ariannu, a beth sydd ei angen arnoch i oresgyn yr heriau yr ydych yn ei wynebu yn yr oes sydd ohoni.

Yn hollbwysig, mae hwn yn gyfle i chi rannu eich blaenoriaethau gyda chyllidwyr.

Drwy gasglu a dadansoddi'r ymatebion, ein nod yw:

- Creu darlun a rennir o'r sector.
- Darparu gwybodaeth ymarferol i gyllidwyr a sefydliadau weithredu arni.
- Tynnu sylw at waith ac effaith sefydliadau cymdeithas sifil amrywiol ym maes bwyd a ffermio.

Bydd y wybodaeth a gasglwn ar gael fel **data crai** ac **adroddiad manwl**. Bydd hyn nid yn unig yn cael ei ddefnyddio gan gyllidwyr, ond bydd yn ddefnyddiol i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan – i gefnogi eich penderfyniadau, eich gwaith eirioli, eich partneriaethau a'ch cynigion cyllido.

Drwy fapio'r gwahanol brosiectau, meysydd arbenigol, anghenion ac adnoddau ar draws pedair gwlad y DU, rydym yn gobeithio darparu tir ffrwythlon i greu cysylltiadau a sefydlu prosiectau cydweithredol lle nad yw'r rhain yn bodoli eto.

Mae'r trydydd Cyfrifiad Materion Bwyd hwn yn adeiladu ar gyfrifiadau blaenorol a gynhaliwyd yn 2011 a 2017.

Ydy'r arolwg hwn yn addas i chi?

Os yw eich sefydliad yn gwneud unrhyw waith nid-er-elw neu waith er budd y cyhoedd sy'n ymwneud â bwyd - boed hynny'n ymwneud â thyfu bwyd yn lleol, mynd i'r afael â newyn, neu unrhyw beth rhwng y ddau - byddem wrth ein bodd pe gallech gymryd rhan. Mae'r arolwg yn agored i sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn y DU neu'r rhai sy'n derbyn cyllid elusennol gan y DU. Os ydych yn ansicr, edrychwch ar ein rhestr o [Gwestiynau Cyffredin](#).

Noder:

- Mae'r arolwg hwn ar gyfer sefydliadau neu fentrau untro, nid prosiectau unigol o fewn sefydliadau mwy.
- Dim ond [un ymateb fesul sefydliad](#) sydd ei angen, felly trafodwch yn fewnol pwy sydd yn y sefyllfa orau i gwblhau'r arolwg.

Faint o amser y bydd hyn yn ei gymryd?

Bydd yn cymryd 30 i 60 munud i gwblhau'r arolwg. Bydd angen i chi gael y canlynol wrth law:

- Eich cyfrifon blynyddol neu ariannol diweddaraf
- Gwybodaeth am staff eich sefydliad a gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd

Gallwch ddechrau'r arolwg nawr a'i orffen yn ddiweddarach drwy glicio ar 'Cadw' ar waelod unrhyw dudalen.

Os yw'n ddefnyddiol, gallwch hefyd weld y set lawn o gwestiynau ac atebion amlddewis [yma](#).

Rydym yn ymrwymedig i gynnwys ystod amrywiol o sefydliadau yn y prosiect hwn. Er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyfranogiad, rydym wedi sefydlu Cronfa Gynhwysiant y Cyfrifiad Materion Bwyd. Darllenwch fwy am y gronfa a sut y gallwch wneud cais iddi [yma](#).

Mae'r rhestr lawn o gwestiynau cyffredin hefyd ar gael [yma](#).

Diolch eto am eich cyfraniad gwerthfawr!

Adran un: Chi a'ch sefydliad

1. Chi a'ch sefydliad

Enw cyntaf: _____

Cyfenw: _____

Enw'r sefydliad, y grŵp neu'r fenter ((Nodwch hynny os yw'n berthnasol a theipiwch Dd/B os nad yw)): _____

Gwefan y sefydliad (Nodwch hynny os yw'n berthnasol a theipiwch Dd/B os nad yw):

Eich rôl (neu deitl eich swydd) (Nodwch hynny os yw'n berthnasol a theipiwch Dd/B os nad yw): _____

Eich cyfeiriad e-bost: _____

2. Math o sefydliad: Dewiswch yr opsiwn/opsionau sy'n disgrifio eich sefydliad orau.

- Cynghrair neu rwydwaith
- Elusen gofrestredig
- Menter gymdeithasol neu fusnes nid-er-elw
- Cwmni cydweithredol neu gydfuddiannol
- Cwmni buddiant cymunedol
- Cwmni cyfyngedig drwy warant
- Sefydliad anghorfforedig (e.e. clwb neu brosiect untro)
- Undeb llafur
- Cymdeithas fasnach neu gorff proffesiynol
- Plaid wleidyddol neu grŵp ffydd
- Sefydliad addysg neu ymchwil (e.e. ysgol neu brifysgol)
- Sector cyhoeddus (gan gynnwys corff cyhoeddus anadrannol)
- Arall (nodwch)_____

3. Daeryddiaeth: Ar ba wlad/rhanbarth y mae eich gwaith yn canolbwyntio?

- Y DU Gyfan
- Lloegr
 - Gogledd-ddwyrain Lloegr
 - Gogledd-orllewin Lloegr
 - Swydd Efrog a'r Humber
 - Dwyrain Canolbarth Lloegr
 - Gorllewin Canolbarth Lloegr
 - Dwyrain Lloegr
 - Llundain
 - De-ddwyrain Lloegr
 - De-orllewin Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban

- Cymru
- Arall (nodwch)_____

Adran dau: Y gwaith yr ydych yn ei wneud

Mae'r cwestiwn nesaf yn canolbwyntio ar y gwaith y mae eich sefydliad yn ei wneud.

Rydym wedi trefnu'r rhain yn themâu ac yn is-themâu. Ar ôl dewis eich prif themâu, bydd cwestiynau cysylltiedig ar yr is-themâu yn ymddangos oddi tanynt i chi ddewis ohonynt.

Os yw'n well gennych weld y rhestr lawn o themâu ac is-themâu cyn gwneud eich dewisiadau, cliciwch yma.

Dewiswch yr is-faterion sy'n ymwneud â Chynaliadwyedd Amgylcheddol a'r Gallu i Wrthsefyll yr Hinsawdd y mae eich sefydliad yn gweithio arnynt ar hyn o bryd:

4. Pa rai o'r materion bwyd a ffermio canlynol y mae eich sefydliad yn mynd i'r afael â nhw? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol gan ganolbwyntio ar y meysydd yr ydych yn neilltuo o leiaf 5% o oriau staff neu wirfoddolwyr iddynt)

- Cynaliadwyedd Amgylcheddol a'r Gallu i Wrthsefyll yr Hinsawdd
 - Iechyd y pridd
 - Gwarchod bioamrywiaeth a diogelu cynefinoedd
 - Rheoli adnoddau dŵr
 - Llygredd aer
 - Cynllunio defnydd tir
 - Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd
 - Addasu i'r newid yn yr hinsawdd
 - Bioamrywiaeth amaethyddol
 - Dad-ddofi tir
 - Arall (Nodwch)_____
- Arferion Ffermio a Chynhyrchu Cynaliadwy
 - Ffermio organig
 - Ffermio adfywiol
 - Ffermio amaeth-ecolegol
 - Permaddiwylliant
 - Garddwriaeth a gerddi marchnad
 - Amaethyddiaeth drefol
 - Lleihau'r defnydd o blaladdwyr
 - Rheoli gwrtait
 - Arbed hadau a sofraniaeth hadau
 - Hwsmonaeth anifeiliaid
 - Lles anifeiliaid
 - Safonau bwyd
 - Arall (Nodwch)_____
- Gwastraff, Rheoli Adnoddau a Chynaliadwyedd

- Gwastraff bwyd a cholli bwyd
- Deunydd pacio
- Ailgylchu, compostio neu aildefnyddio
- Ailddosbarthu bwyd dros ben
- Arall (Nodwch)_____
- Pysgota a Dyframaethu
 - Arferion pysgota cynaliadwy
 - Bioamrywiaeth forol a diogelu ecosystemau
 - Arloesi yn y meysydd dyframaethu a ffermio pysgod
 - Lles pysgod a physgod cregyn
 - Arall (Nodwch)_____
- Diogeledd Bwyd i Gartrefi, Tyfu Bwyd a Bwyd Cymunedol
 - Mynd i'r afael â thlodi a diffyg diogeledd bwyd yn y cartref
 - Sicrhau mynediad teg i fwyd maethlon
 - Darparu bwyd yn y gymuned
 - Cymorth bwyd mewn argyfwng
 - Datblygu systemau bwyd lleol
 - Gwella mynediad i dir ar gyfer tyfu bwyd
 - Hawl cymunedau i dyfu bwyd
 - Arall (Nodwch)_____
- Economiâu Teg a Chadarn
 - Cefnogi ffermwyr a chynhyrchwyr bach
 - Sicrhau prisiau teg am fwyd
 - Hyrwyddo cyflogau teg a hawliau llafur
 - Mynd i'r afael â heriau'n ymwneud â gweithwyr a llafur tymhorol
 - Cefnogi newydd-ddyfodiaid i ffermio
 - Cryfhau economïau gwledig
 - Eirioli dros fwyd lleol, cynaliadwy ym maes caffael cyhoeddus
 - Arall (Nodwch)_____
- Newid Systemau, Pŵer, a Chyfiawnder
 - Sofraniaeth bwyd
 - Tegwch mewn cadwyni cyflenwi
 - Atebolrwydd corfforaethol
 - Cyfiawnder bwyd
 - Cyfiawnder tir
 - Ymgysylltu â dinasyddion
 - Gwneud penderfyniadau cynhwysol
 - Cyd-ddylunio
 - Dulliau gweithredu ar draws systemau
 - Arall (Nodwch)_____
- Cyfiawnder a Thegwch Cymdeithasol
 - Tegwch rhwng y rhywiau
 - Cyfiawnder, tegwch a chynhwysiant ar sail hil
 - Dad-drefedigaethu'r system fwyd

- Gwneud iawn
- Cynhwysiant cymdeithasol
- Cyfiawnder i bobl ag anabledd
- Hawliau gweithwyr
- Hawl i fwyd
- Arall (Nodwch)_____
- Iechyd a Maeth
 - Hyrwyddo newid deiet
 - Mynd i'r afael â chyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â deiet (e.e. gordewdra, diabetes)
 - Addysg bwyd mewn ysgolion a chymunedau
 - Iechyd a maeth babanod a phlant
 - Iechyd a maeth oedolion
 - Cysylltu iechyd y blaned ac iechyd pobl
 - Cyfiawnder iechyd
 - Dad-drefedigaethu iechyd y cyhoedd
 - Diogelwch bwyd
 - Arall (Nodwch)_____
- Cysylltu Pobl a Thir
 - Darparu cyfleoedd i bobl ailgysylltu â'r tir
 - Addysgu a rhannu sgiliau tir
 - Cysylltu tyfu bwyd â llesiant personol a chymunedol
 - Eco-ysbrydolrwydd
 - Dysgu o ddoethineb cynhenid
 - Arall (Nodwch)_____
- Arloesedd Technolegol a Gwyddonol
 - Ymchwilio i dechnolegau amaethyddol cynaliadwy
 - Ymchwilio i broteinau amgen (e.e. protein o blanhigion, cig wedi'i dyfu mewn labordy)
 - Datblygu offer digidol ar gyfer rheoli ffermydd ac olrhain cynnyrch
 - Prosiectau ymchwil cydweithredol newydd
 - Corff gwarchod ar gyfer technoleg
 - Llywodraethu technoleg
 - Arall (Nodwch)_____
- Hysbysebu a Marchnata Bwyd a Honiadau'n Ymwneud â Bwyd
 - Rheoleiddio hysbysebu bwyd, yn enwedig i blant
 - Sicrhau bod honiadau'n ymwneud â bwyd (e.e., "organig," "naturiol," "cynaliadwy") yn gywir ac yn dryloyw
 - Arferion marchnata bwyd moesegol
 - Arall (Nodwch)_____
- Arall (Nodwch)_____

5. **Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich dull o greu newid? Dim ond y meysydd hynny yr ydych yn neilltuo cryn dipyn o'ch amser iddynt (5% neu fwy o'ch oriau staff neu wirfoddolwyr) y dylech eu dewis.**

- **Gwaith polisi ac eirioli:** dylanwadu ar gyfreithiau, rheolau, neu benderfyniadau er mwyn gwella pethau i bobl neu gymunedau. E.e. Lobio am brydau ysgol am ddim.
- **Darparu gwasanaethau:** darparu gwasanaethau neu gymorth yn uniongyrchol i bobl. E.e. Rhedeg banc bwyd.
- **Datblygu capasiti ac addysg:** helpu pobl i ddysgu sgiliau neu i gael gwybodaeth. E.e. Cynnal gweithdai i gymunedau pysgota ar sut i ddefnyddio dulliau pysgota ecogyfeillgar
- **Mentrau cymdeithasol ac atebion sy'n seiliedig ar y farchnad:** busnes nid-er-elw sy'n canolbwyntio ar genhadaeth gymdeithasol. E.e. Creu cwmni cydweithredol ar gyfer ffermwyr bach i werthu eu cynnyrch yn uniongyrchol i ddefnyddwyr am brisiau teg.
- **Ymchwil a chasglu data:** casglu a dadansoddi gwybodaeth er mwyn deall problemau a dod o hyd i atebion. E.e. Cynnal arolwg o ffermwyr i ddeall y rhwystrau y maent yn eu hwynebu i ffermio'n fwy cynaliadwy.
- **Gweithredu cymunedol:** dod â phobl ynghyd i weithredu ar fater sy'n bwysig iddyn nhw. E.e. Trefnu sesiwn glanhau'r cymdogaethau i baratoi ar gyfer prosiect gardd gymunedol.
- **Codi ymwybyddiaeth:** rhannu gwybodaeth er mwyn helpu pobl i ddeall mater penodol a phoeni amdano. E.e. Cynnal ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at effaith gwastraff bwyd.
- **Newid systemau:** newid y strwythurau, y rheolau, a'r perthnasoedd o fewn system i greu atebion hirdymor a chynaliadwy
- **Arloesi ac arbrofi:** profi syniadau neu ddulliau newydd i ddatrys problem. E.e. Treialu fan ffrwythau a llysiâu symudol i ddod â chynnyrch ffres i ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.
- Arall (nodwch)_____

6. **Ble mae gwaith eich sefydliad ar y sbectrwm rhwng mynd i'r afael ag achosion sylfaenol yr materion yr ydych yn gweithio arnynt a lleddfu'r symptomau? (Os ydych yn defnyddio dull cymysg, dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

- **Achosion Sylfaenol:** Mynd i'r afael â phroblemau systemig neu sylfaenol
- **Ffactorau sy'n Cyfrannu at y Broblem ac sy'n ei Chreu:** Mynd i'r afael ag amodau a digwyddiadau sy'n gwaethygu'r broblem.
- **Symptomau:** Lliniaru effeithiau'r broblem yn uniongyrchol.
- Rwy'n ansicr / nid ydym yn meddwl am ein gwaith yn y ffordd hon
- Arall (nodwch)_____

7. A yw eich gwaith yn canolbwyntio ar/gwasanaethu unrhyw rai o'r grwpiau canlynol? Dewiswch bob opsiwn perthnasol.

- Na, nid yw fy ngwaith yn blaenoriaethu unrhyw grŵp penodol
- Plant a/neu bobl ifanc
- Pobl ddigartref
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Pobl ag anableddau
- Oedolion hŷn (60+)
- Cymunedau LHDTC+
- Cymunedau hiliol a/neu ethnig arbennig
- Cymunedau sy'n profi caledi ariannol
- Arall (nodwch)_____

Adran tri: Pobl ac Adnoddau

8. Dywedwch wrthym am eich incwm, eich staff a'ch gwirfoddolwyr isod:

Rhowch wybodaeth am incwm, staff a gwirfoddolwyr eich mudiad yn y tabl isod.

Bydd hyn yn ein helpu i ddeall yr adnoddau sydd wedi'u neilltuo ar hyn o bryd i weithgareddau bwyd a ffermio o gymharu â ffocws ehangach eich sefydliad.

- Os yw eich sefydliad yn gweithio ar fwyd a ffermio yn unig, bydd y ffigurau yn y golofn 'Cyfanswm' a'r golofn 'Bwyd a Ffermio' yr un fath.
- Os mai dim ond rhan o'ch gwaith yw bwyd a ffermio, amcangyfrifwch y gyfran sydd wedi'i neilltuo ar gyfer bwyd a ffermio. Er enghraifft, os yw cyfanswm eich incwm yn £100,000, a 10% o'ch gwaith yn ymwneud â bwyd a ffermio, nodwch £100,000 o dan 'Cyfanswm' a £10,000 o dan 'Bwyd a Ffermio.'

Metrig	Cyfanswm	Y cyfanswm ar fwyd a ffermio
Incwm Blynyddol (Defnyddiwch y cyfanswm o'r flwyddyn lawn ddiweddaraf y mae gennych ffigurau cywir ar ei chyfer (mewn GBP), boed o'ch adroddiad blynyddol diwethaf neu o gyfrifon rheoli mwy diweddar.)		

<p>Staff (Rhowch gyfanswm nifer y staff cyflogedig cyfwerth ag amser llawn (FTE). Dylech gyfrif pob aelod o staff amser llawn fel 1 FTE. Ar gyfer staff rhan-amser, dylech gyfrif pob diwrnod y maent yn gweithio yr wythnos fel 0.2 FTE.</p> <p>Er enghraifft, os oes gennych 4 aelod o staff amser llawn ac 1 aelod o staff rhan-amser yn gweithio 2.5 diwrnod yr wythnos, eich cyfanswm fyddai 4.5 FTE.</p>		
<p>Gwirfoddolwyr (Mae gwirfoddolwyr yn golygu pobl sy'n gweithio i chi heb gael eu talu, gan gynnwys ymddiriedolwyr). Dylech gyfrif pob gwirfoddolwr amser llawn fel 1 FTE. Ar gyfer gwirfoddolwyr rhan-amser, dylech gyfrif pob diwrnod y maent yn gwirfoddoli yr wythnos fel 0.2 FTE.</p>		

9. O ble y daeth yr incwm ar gyfer eich gwaith ar faterion bwyd a ffermio y llynedd? Ticiwch bob un sy'n berthnasol ac ychwanegwch y swm lle y bo'n berthnasol.

	Ie/Na	Swm (£)
Cyllid y llywodraeth (e.e., grantiau lleol,		

rhanbarthol neu genedlaethol)		
Ymddiriedolaethau a sefydliadau elusenol		
Rhoddion (e.e., unigolion neu ddyngarwyr)		
Nawdd corfforaethol neu bartneriaethau		
Incwm o gynnyrch neu wasanaethau (e.e., ymgynghori, digwyddiadau, gwerthiannau)		
Ffioedd aelodaeth neu danysgrifiadau		
Cyllid torfol neu godi arian ar-lein		
Grantiau ymchwil neu gyllid academaidd		
Arian y Loteri (e.e., y Loteri Genedlaethol)		
Cyllid yr Undeb Ewropeaidd neu gyllid rhyngwladol		
Arall (Nodwch)		

Os gwnaethoch ddewis 'arall' yn y cwestiwn blaenorol, ychwanegwch fanylion am swm yr incwm a'i ffynhonnell:

10. O fewn prif faes gwaith eich sefydliad ar fwyd a ffermio, pa fater neu weithgaredd unigol fyddai'n elwa fwyaf o gael arian ychwanegol? (Byddwch mor benodol â phosibl, e.e., "Ehangu rhaglenni tyfu bwyd lleol" neu "Eirioli ar gyfer polisiâu ffermio cynaliadwy.")

11. Hoffem ddeall sut y gall cyllidwyr, cynghreiriau, ac ymchwilwyr gefnogi a chryfhau'r sector bwyd a ffermio yn well. Rhannwch eich barn ar y mathau pwysicaf o gymorth, heriau penodol, neu gyfleoedd y dylent roi sylw iddynt yn y gofod isod:

Sut y gall cyllidwyr gefnogi'r sector bwyd a ffermio yn well:

Sut y gall cynghreiriau gefnogi'r sector bwyd a ffermio yn well:

Sut y gall ymchwilwyr gefnogi'r sector bwyd a ffermio yn well:

Adran Pedwar: Eich cysylltiadau

12. Gyda pha sefydliadau eraill y mae eich sefydliad yn gweithio ar faterion bwyd a ffermio ar hyn o bryd? Rhestrwch hyd at 10 sefydliad y mae eich sefydliad yn gweithio gyda nhw ar hyn o bryd ar faterion bwyd a ffermio. Ar gyfer pob sefydliad, dewiswch yr opsiwn sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o natur y berthynas orau.

Enw'r sefydliad (<i>Lle i hyd at 10</i>)	Natur y berthynas (<i>cwymplen</i>)
	<ul style="list-style-type: none">• Cydweithredu: Rydym yn rhannu gwybodaeth gyda'n gilydd ac yn gweithio gyda'n gilydd yn anffurfiol.• Cydgysylltu: Rydym yn alinio ein gwaith ac yn gweithio tuag at gyflawni canlyniadau gwell gyda'n gilydd.• Cydweithio: Rydym wedi rhannu pobl sy'n gwneud penderfyniadau ac adnoddau, a/neu raglenni cwbl integredig.

13. Pa rwydweithiau, cyngreiriau, neu fudiadau y mae eich sefydliad yn rhan ohonynt? Rydym wedi rhestru rhai opsiynau isod, ond mae croeso i chi ychwanegu unrhyw rai eraill sy'n berthnasol.

- Sustain: y gynghrair ar gyfer gwell bwyd a ffermio
- Y Rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy
- Eating Better
- Alliance to Save our Antibiotics
- Plant-Based Food Alliance UK
- Cynghrair Gweithwyr y Tir
- The People's Food and Farming Alliance (PFFA)
- Y mudiad Sofraniaeth Bwyd
- Y mudiad Bwyd Araf
- Y mudiad Digon i'w Rannu
- Ychwanegu Opsiwn _____

14. Pa berthnasoddd yr ydych yn awyddus i'w creu gyda sefydliadau eraill i gryfhau neu ehangu effaith eich gwaith ym maes bwyd a ffermio?

Y perthnasoedd yr ydych yn awyddus i'w creu	Sut y gallai'r rhain gryfhau eich gwaith neu gynyddu eich effaith

15. Yn eich barn chi, beth yw'r prif ffactorau sy'n rhwystro ac yn galluogi cydweithio effeithiol o fewn y sector bwyd a ffermio?

Y Ffactorau sy'n Rhwystro Cydweithio (Beth sy'n gwneud cydweithio'n anodd?)_____

Y Ffactorau sy'n Galluogi Cydweithio (Beth sy'n helpu cydweithio i lwyddo?)_____

Enghreifftiau o'ch Profiad Chi (Dewisol)_____

Adran pump: Llwyddiannau ysbrydoledig a'r dyfodol

16. Pa rai o'r rhain yw'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r sector bwyd a ffermio yn y DU yn y 3-5 mlynedd nesaf?

- Cyllid a chynaliadwyedd ariannol
 - Ffrydiau cyllido cyfyngedig neu anrhagweladwy
 - Dibyniaeth fawr ar grantiau neu roddwyr penodol
 - Arall (nodwch)_____
- Heriau'n ymwneud â'r gweithlu
 - Prinder sgiliau neu ddiffyg personél hyfforddedig
 - Trosiant staff uchel neu orweithio
 - Anawsterau recriwtio a chadw
 - Arall (nodwch)_____
- Polisi a rheoleiddio
 - Deall rheoliadau cymhleth neu newidiol
 - Diffyg polisiau cefnogol neu strategaeth gyffredinol ar gyfer nodau'r sector
 - Arall (nodwch)_____
- Cydweithio a rhwydweithio
 - Cydweithio cyfyngedig ar draws sectorau neu weithio mewn seilos
 - Diffyg cydgysylltu ymhlith rhanddeiliaid
 - Arall (nodwch)_____
- Newid technolegol ac arloesi
 - Diffyg mynediad at dechnolegau newydd neu ddiffyg hyfforddiant ar dechnolegau o'r fath
 - Anawsterau o ran mabwysiadu mentrau newydd oherwydd cost neu gymhlethdod
 - Arall (nodwch)_____
- Heriau amgylcheddol
 - Effeithiau newid hinsawdd
 - Prinder adnoddau neu ddirywiad yn eu cyflwr
 - Rheoleiddio cynaliadwyedd
 - Arall (nodwch)_____
- Problemau'n Ymwneud â Chyfiawnder a Thegwch Cymdeithasol
 - Anghydraddoldebau o ran mynediad neu ganlyniadau ar gyfer grwpiau ymylol
 - Tangynrychiolaeth a hiliaeth o fewn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector
 - 'Ffyrdd o wybod' gwyn/Gorllewinol/trefedigaethol yn tra-arglwyddiaethu
 - Mynediad i dir
 - Arall (nodwch)_____

- Data, mesur a gwerthuso
 - Prinder data i ddangos effaith neu i fod yn sail i benderfyniadau
 - Heriau wrth fesur llwyddiant neu ganlyniadau
 - Arall (nodwch)_____
- Arall, nodwch

17. Enwebiad ar gyfer astudiaeth achos: Rydym yn awyddus i roi sylw i straeon llwyddiant ysbrydoledig o'r sector bwyd a ffermio yn y DU fel rhan o adroddiad y Cyfrifiad Materion Bwyd.

Pa waith yn y sector sy'n eich ysbrydoli, neu yr ydych chi fwyaf balch ohono?

Rydym yn chwilio'n benodol am enghreifftiau sy'n dangos gwaith sy'n ymwneud ag:

- Arloesi
- Amaeth-ecoleg
- Cydweithio
- Croestoriadedd
- Gwrth-hiliaeth a chyfiawnder hiliol
- Y defnydd effeithiol o gyllid craidd

Gallwch rannu manylion eich gwaith eich hun neu enwebu sefydliad neu brosiect arall. Drwy ddarparu'r wybodaeth gyswllt isod, rydych yn rhoi caniatâd i ni gysylltu â chi at ddibenion y Cyfrifiad Materion Bwyd.

Enw'r Prosiect: _____

Enw'r Sefydliad: _____

Enw person cyswllt (os yw'n wahanol i chi): _____

E-bost person cyswllt (os yw'n wahanol i chi): _____

Disgrifiad byr o'r gwaith (uchafswm o 100 gair): _____